PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD MERCHER, 5 HYDREF 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd McGarry(Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr Carter, Chris Davis a/ac Sanders |

28 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Ahmed a Magill.

29 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

30 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Medi 2016 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

31 : CYNLLUN TAIR BLYNEDD DEMENTIA CAERDYDD A'R FRO (2014/2017): ADRODDIAD CYNNYDD

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Elsmore, Aelod Cabinet (Iechyd, Tai a Lles); Tony Young, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol; Amanda Phillips, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion; Helen Joy, Nexus Gweithredu Dros Iechyd Meddwl Caerdydd a'r Fro a Dr Suzanne Wood, Bwrdd Iechyd y Cyhoedd Caerdydd a'r Fro i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad a dywedodd ei bod yn falch o allu mynychu lansiad cynllun 3 blynedd Dementia Caerdydd a'r Fro a hefyd o wedi cyflwyno cynnig yn galw ar y Cyngor i wneud Caerdydd yn Ddinas sy'n Ystyriol o Ddementia a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Medi. Mae cynnydd da wedi bod yn y gwaith o weithredu'r gweithrediadau a gytunwyd arnynt dros y ddwy flynedd diwethaf, ond mae gweithrediadau pellach i'w gweithredu o hyd.

Rhodd Dr Suzanne Wood wybod i'r Aelodau fod gwaith i daclo Dementia ar y gweill ac y caiff y Cynllun Dementia 3 blynedd ei loywi ym mis Ebrill 2017.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Gofynnodd yr Aelodau a yw'r ystadegau y cyfeiriwyd atynt yn cymharu'n ffafriol â Byrddau Iechyd eraill yn y DU. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr is-grŵp Monitro a Gwerthuso wedi nodi gwelliannau ar gyfer y flwyddyn ond mae perfformiad wedi gwaelu ychydig. Er y cymharodd ffigurau perfformiad yn ffafriol gyda Byrddau Iechyd Cymru eraill, gyda golwg ar y cyfraddau gwneud diagnosis o ddementia, mae rhywfaint o waith i'w wneud er mwyn cyflawni lefel o berfformiad sy'n cymharu'n ffafriol â Byrddau Iechyd Lloegr. Nododd

Aelodau hefyd mai Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw'r unig Fwrdd Iechyd yng Nghymru gyda Chynllun Dementia annibynnol. Ni chafodd ei fandadu gan Lywodraeth Cymru

Mae'r tasglu yn monitro perfformiad ac yn cytuno ar weithrediadau i wella, er enghraifft mae bellach yn defnyddio clinigau diagnostig Meddygon Teulu yn hytrach na rhoi gormod o faich ar y Tîm Cofion er mwyn gwella perfformiad o 20 wythnos i darged o 6 wythnos.

- Rhoddwyd gwybodaeth i'r Aelodau am Is-grŵp Cyfathrebiadau ac Ymgysylltu y mae Dr Wood a Helen Joy yn gadeiryddion ar ei gyfer. Yn enwedig, cyfeiriwyd yr Aelodau at fuddion gweithio mewn partneriaeth sy'n sicrhau bod cyfathrebu effeithlon ac effeithiol. Mae adborth gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth wedi helpu i fireinio cynnwys pecynnau diagnosis ac mae'r tystion yn hyderus bod pryderon gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth wedi'u nodi a'u hystyried yn ystod y broses ddarpariaeth CCC

- Gan fod dull y Tasglu yn amlochrog, gofynnod yr Aelodau a yw perfformiad fel y disgwyliwyd iddo fod ar y pwynt hwn. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod targedau'n cael eu bwrw ar hyn o bryd, a bod modiwlau hyfforddiant a datblygu a deddfwriaeth newydd ar gyfer staff iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u cyflwyno. Mae staff mor ymwybodol o ddementia ag y gallant fod.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at Gymunedau sy'n Ystyriol o Ddementia a cheision nhw gadarnhad o'r dull a'r cydbwysedd rhwng staff Gwasanaethau Cymdeithasol a staff Partneriaeth Cymdogaeth, dywedodd Swyddogion, er bod dull ar y cyd yn flaenoriaeth, fod gwaith yn dal i gael ei wneud ar wahân ac felly mae gwaith bellach wedi ymuno gweithluoedd trwy'r dull Partneriaeth Cymdogaeth. Dywedwyd wrth yr Aelodau hefyd fod y Fframwaith Gwaith Da yn cael ei gweithredu a bod lefelu ymwybyddiaeth o ddementia mewn siopau a busnesau'n cynyddu.

- Nododd yr Aelodau fod arolwg o brofiadau gofalwyr ar y gweill ond bod meintiau sampl yn rhy fach ar hyn o bryd ac ar y sail honno, a yw'r canlyniadau'n gywir. Dywedodd Dr Wood fod barn y Gofalwyr yn werthfawr. Cymerodd yr arolwg oddeutu 10 munud i'w gwblhau, ond roedd yn wirfoddol. Derbynnir bod lefel ymateb isel, ond, mae'n anodd parhau i arolygu'r un Gofalwyr. Dywedodd Helen Joy ei fod yn faes sy'n drysu Nexus a'r Tasglu Dementia gan fod nifer o arolygon wedi bod ac mae llawer o wybodaeth i'w choladu. Mae'n bwysig casglu'r wybodaeth i drio canfod syniad iawn a gonest o farn Gofalwyr.

- Gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariad at Ofal Seibiant a dywedwyd wrthynt fod nifer o adolygiadau ar y gweill mewn perthynas ag ail-dendro gofal seibiant.

- Er na fu cyfeiriad penodol yn adroddiad cynnydd Blwyddyn 2 at Oldwell Court, bu cyfeiriadau at Gymdeithas Alzheimer. Mae'r awdurdod wedi cynnal ei berthynas gydag Oldwell Court ac yn parhau i ariannu lleoedd. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod yr adroddiad wedi'i gydlynu gan y Bwrdd Iechyd fel crynodeb o berfformiad hyd yn hyn.

- Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod llety dementia sy'n dechrau'n ifanc wedi'i gynnwys yn y gwaith o ail-gomisiynu llety yn ymwneud ag anableddau dysgu a bod ail-gomisiynu hefyd yn cynnwys ail-dendro llety iechyd meddwl â chymorth.

- Roedd pryderon gan yr Aelodau hefyd am ansawdd gofal mewn cartrefi preswyl a nyrsio a dywedwyd wrthynt fod, mewn partneriaeth ag AGGCC, y Polisi Uwchgyfeirio Pryderon yn cael ei weithredu'n gadarn.

- Mewn ymateb i ymholiad gan yr Aelodau am yr hyn a oedd yn gweithio'n dda ar hyn o bryd, ymatebodd Helen Joy fod y gweithio mewn partneriaeth, gyda phobl ar y lefel cywir i gyflawni newid, yn werthfawr mewn tirlun mor gymhleth a bod angen parhau gyda hyn ar ôl diwedd y Cynllun. Yn ogystal, mae angen gwella'r ffordd y caiff adborth defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ei drin a'i weithredu a sut mae'n cael ei gasglu i sicrhau ei fod yn fwy cynhwysfawr ac yn cynrychioli cymunedau yng Nghaerdydd.

CYTUNWYD - y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu i'r Aelodau Cabinet, y Cyfarwyddwr a'r swyddogion perthnasol yn ddiolch iddynt am fynychu Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion ar 5 Hydref 2016 ac i gyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

32 : EITEM ASESU THEMATIG

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Susan Elsmore, Aelod y Cabinet dros Iechyd, Tai a Lles, Tony Young Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Sarah McGill, Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid, Amanda Phillips, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion a Jane Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Cymunedau a Thai a Carolyne Palmer i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Ceisiodd yr Aelodau gadarnhad o ran sut y cafwyd mynediad at asesiadau gofalwyr trwy'r PCC a rhoddwyd gwybod iddynt y gall y PCC, os bydd angen cymorth, roi gwybodaeth, cyngor a chymorth, yna bydd atgyfeiriad i'r Tîm Asesu Gofalwyr. Ar hyn o bryd yn y tîm, ceir 4 Gweithiwr Cymorth Gofal, ac mae arian yn cael ei geisio ar gyfer 2 Weithiwr Cymorth Gofal pellach.

- Roedd pryderon gan yr Aelodau am ateb y galw cynyddol trwy PCC a dywedwyd wrthynt fod lefelau staff wedi'u hail-alinio a bydd Swyddogion Byw'n Annibynnol yn gwneud asesiadau hefyd. Mae dulliau eraill o ddarparu PCC hefyd yn cael eu hystyried.

- Nododd Aelodau fod yr asesiadau newydd yn cymryd hirach i'w cwblhau na'r asesiadau blaenorol ond bod pwysau'n cael eu monitro'n agos.

- Gofynnod yr Aelodau a fydd arian yr ICF yn parhau i ariannu 2 Weithiwr Cymdeithasol cyfwerth ag amser llawn a dywedwyd wrthynt y parheir i ariannu'r swyddi hynny.

- Dywedwyd wrth yr Aelodau fod cynigion pwysau wedi'u gwneud ar gyfer 2017/18 i'r PCC gael arian ychwanegol

- Dywedodd Swyddogion fod hwn yn wasanaeth newydd, gyda swyddogaeth statudol newydd a bydd yn bwysig ystyried y data yn gyntaf i wella darpariaeth yn y dyfodol.

- Roedd pryderon gan yr Aelodau y byddai rhywfaint o ddefnyddwyr presennol y gwasanaeth yn pryderu y byddai'r asesiadau newydd yn arwain at leihad yn eu pecynnau gofal ond dywedwyd wrthynt fod staff yn ymwybodol o'r pryderon hynny. Mae staff wedi'u hyfforddi ac mae Hyrwyddwyr Her ar waith i gynorthwyo'r broses.

- Dywedwyd Swyddogion fod y sgyrsiau gyda'r defnyddwyr gwasanaeth newydd a phresennol yn wahanol iawn ac nad oes llawer o gwynion wedi bod am becynnau gofal ers cyflwyno'r Ddeddf. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod nifer uchel o gwsmeriaid yn fodlon ar Wasanaethau Oedolion ac er ei bod yn rhy gynnar i ystyried hyn dan y Ddeddf, mae angen i Wasanaethau Cymdeithasol arolygu defnyddwyr gwasanaeth am eu barn a bydd hyn yn digwydd.

- Ceisiodd yr Aelodau gadarnhad fel y demograffig presennol ac a yw, er enghraifft, Swyddogion yn teimlo bod yr angen am Weithwyr Cymdeithasol yn codi, neu a yw'n rhy gynnar i ddweud. Dywedodd Swyddogion fod y twf demograffig wedi'i ystyried, gyda staff wedi'i hail-alinio i ymdrin â thagfa ar y blaen a rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth a gwasanaethau ataliol, sy'n helpu i sicrhau, ar hyn o bryd, fod galw am wasanaethau cymdeithasol i oedolion yn aros yn statig ac yn cael eu rheoli.

- Dywedodd Swyddogion wrth yr Aelodau, er bod gofynion adrodd yn newid, er enghraifft Adolygiadau Cynllunio Gofal, fod bwrdd gwaith yn cael ei gynnal ar gyfer pob gwasanaeth pob wythnos a thrafodir hyn gan reolwyr a derbynnir adroddiadau misol.

- Dywedwyd wrth yr Aelodau fod lansiad Peilot Gweithio'n Lleol yn Llanisien ar ddiwedd mis Hydref. Mae ymateb unigolion a busnesau i'r project hyd yn hyn wedi creu argraff ar swyddogion ac mae'n bwysig bod y model yn gynaliadwy a bod momentwm yn cael ei gynnal i sicrhau pontio didrafferth. Nododd yr Aelodau na wireddir rhai o'r arbedion a ddisgwyliwyd yn 2016/17 gan ei fod wedi cymryd yn hirach na'r disgwyl i ddatrys rhai o'r gwasanaethau gofal cartref.

- Dywedodd Carolyne Palmer wrth yr Aelodau i'w chyfrifoldeb dros y Gwasanaeth Offer ar y Cyd ddechrau ym mis Ebrill eleni a bod gwelliannau'n cael eu gwneud ar hyn o bryd i wella'r gwasanaeth hwnnw, gyda gwelliannau posibl fel gweithio ar y penwythnos a chleientiaid yn gallu archebu eitemau safonol, fel canllawiau, ar-lein heb ymweliad, ac felly galluogi OT amser i ganolbwyntio ar gleientiaid ag anghenion mwy cymhleth.

CYTUNWYD - y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu i'r Aelodau Cabinet, y Cyfarwyddwr a'r swyddogion perthnasol yn ddiolch iddynt am fynychu Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion ar 5 Hydref 2016 ac i gyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 33 : ADRODDIAD BUSES Y PWYLLGOR GAN GYNNWYS DIWEDDARIAD AR OHEBIAETH

Nodwyd gohebiaeth i ac o'r Pwyllgor.

Trafododd yr Aelodau’r Rhaglen Waith a chytunon nhw arni gan gynnwys cytuno i ychwanegu Comisynu Adnewyddu Fframwaith Gwasanaethau Cynnal a Chadw Adeiladau at yr agenda ar gyfer 2 Tachwedd 2016.

## 34 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Disgwylir i gyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu Cymunedau a Gwasanaethau Oedolion ddigwydd am 5.00pm ar 2 Tachwedd 2016 yn Ystafell Bwyllgor 4 Neuadd y Sir Caerdydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.00 pm